Cyllid & Tollau EM

Penderfyniadau Cyllid a Thollau EM – beth i'w wneud os anghytunwch

Anghytuno â phenderfyniad CThEM

Mae'r daflen wybodaeth hon yn dweud wrthych beth y gallwch ei wneud os nad ydych yn cytuno ag un o'n penderfyniadau treth a sut i apelio i'r tribiwnlys treth annibynnol. Mae'n ymwneud â phenderfyniadau treth a wnaed ar neu ar ôl 1 Ebrill 2009.

Mae'r daflen wybodaeth hon yn ymwneud â phenderfyniadau treth. Os yw eich penderfyniad yn ymwneud â:

- Credydau Treth, dylech fynd i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits/appealing.htm**
- Budd-dal Plant, dylech fynd i **www.hmrc.gov.uk/childbenefit/appealing.htm**
- Y Gronfa Ymddiriedolaeth Plant, dylech fynd i **www.childtrustfund.gov.uk/**
- dychwelyd nwyddau a atafaelwyd, dylech gyfeirio at Hysbysiad 12A y gellir ei weld yn **www.hmrc.gov.uk/index.htm**

Dywedwch wrthym nawr os ydych yn anghytuno

Pan fyddwn yn gwneud penderfyniad y gallwch apelio yn ei erbyn, byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud hynny. Byddwn hefyd yn egluro sut y daethom i'r penderfyniad, ac yn dweud wrthych am eich hawl i apelio. Os na fyddwch yn cytuno â'r penderfyniad, ysgrifennwch atom i roi gwybod i ni ar unwaith, ond beth bynnag, o fewn 30 diwrnod i'r penderfyniad. O ran treth uniongyrchol gelwir hyn yn 'apêlio i CThEM'.

Nid oes rhaid i chi wneud hyn eich hun. Gall cyfrifydd neu gynghorydd arall wneud hyn ar eich rhan.

Os oes gennych ragor o wybodaeth neu os credwch ein bod wedi methu rhywbeth, dylech roi gwybod i ni. Os byddwch:

- byddwn yn dweud wrthych a yw'r wybodaeth hon yn newid ein penderfyniad, neu
- os na fydd yn newid ein penderfyniad, byddwn yn egluro pam.

Fel arfer gellir datrys y rhan fwyaf o anghydfodau drwy eu trafod gyda ni.

Beth i'w wneud os na allwn gytuno

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad ein trafodaethau gallwch:

- gael eich achos wedi'i adolygu gan swyddog gwahanol i'r un a wnaeth y penderfyniad, neu
- gallwch gael tribiwnlys treth annibynnol i wrando ar eich achos.

Os byddwch yn dewis cael eich achos wedi'i adolygu, byddwch yn dal yn gallu apelio i'r tribiwnlys os byddwch yn anghytuno â'r canlyniad.

Sut mae adolygiad yn gweithio

Gallwch ddewis p'un ai i gael adolygiad ai peidio. Naill ai:

- byddwn yn cynnig adolygiad i chi (os felly, bydd gennych 30 diwrnod i roi gwybod i ni a ydych eisiau cael un), neu
- os nad ydym wedi cynnig adolygiad i chi, gallwch ofyn i ni gynnal un ar unrhyw adeg yn ystod ein trafodaeth ynglŷn â'r anghydfod.

Os byddwch yn rhoi gwybod i ni eich bod am gael adolygiad, byddwn yn ei gwblhau o fewn 45 diwrnod oni bai ein bod yn cytuno ar amser arall gyda chi. Cynhelir adolygiadau gan staff CThEM nad ydynt wedi bod yn ymwneud yn flaenorol â'r mater sy'n destun yr anghydfod. Cewch gyfle i gyflwyno rhagor o wybodaeth am eich achos. Ni allwch ofyn i'r tribiwnlys wrando eich achos tan fod y terfyn amser wedi'i gyrraedd, neu ein bod wedi dweud wrthych am ganlyniad yr adolygiad.

Yn y daflen wybodaeth hon mae 'treth uniongyrchol' yn cynnwys

- Treth Enillion Cyfalaf
- Treth Gorfforaeth
- Treth Incwm
- Treth Etifeddiant
- Cyfraniadau Yswiriant Gwladol
- Treth Refeniw Petrolewm
- Treth Dir y Tollau Stamp
- taliadau statudol, ac
- ad-daliadau Benthyciadau Myfyrwyr.

Mae hefyd yn cynnwys treth a gasglwyd o dan y cynllun Talu wrth Ennill (TWE) a Chynllun y Diwydiant Adeiladu.

Yn y daflen wybodaeth hon mae 'treth anuniongyrchol' yn cynnwys

- Ardoll Agregau
- Toll Teithwyr Awyr
- Tollau Diodydd Meddwol
- Toll Trwydded Peiriannau Chwarae
- Toll Bingo
- Ardoll Newid yn yr Hinsawdd
- Penderfyniadau Gwrthderfysgaeth
- Tollau Tramor
- Toll Hapchwarae
- Toll Betio Cyffredinol
- Tollau Olewau Hydrocarbon
- Treth Premiwm Yswiriant
- Treth Tirlenwi
- Treth y Loteri
- Penderfyniadau Gwyngalchu Arian
- Toll Betio Cyffredinol
- Toll Hapchwarae o Bell
- Toll Cynhyrchion Tybaco
- Treth ar Werth (TAW).

Mae apeliadau yn erbyn hysbysiadau gwybodaeth penodol ac yn erbyn cosbau am beidio â chydymffurfio â nhw yn dilyn y broses dreth uniongyrchol.

Nid yw'n cynnwys penderfyniadau ynglŷn â pheidio â dychwelyd nwyddau a atafaelwyd neu gytuno i ddychwelyd nwyddau, p'un a ydynt yn destun amod ai peidio.

Unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am y canlyniad, a byddwn yn esbonio ein rhesymau. (Os na allwn gwblhau ein hadolygiad o fewn 45 diwrnod, neu unrhyw amser y cytunwyd â chi, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi.) Yna mae gennych 30 diwrnod i ofyn i'r tribiwnlys glywed eich achos.

Apelio i'r tribiwnlys

Os nad ydych am gael adolygiad, neu os nad ydych yn cytuno â chasgliad yr adolygiad, gallwch apelio i dribiwnlys. Mae'r tribiwnlys yn annibynnol a chaiff eich achos ei glywed gan farnwyr treth arbenigol a benodwyd yn annibynnol a/neu aelodau'r panel. Gweinyddir y tribiwnlys gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, sy'n rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

I apelio i'r tribiwnlys, fel arfer rhaid i chi ysgrifennu i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd o fewn 30 diwrnod o'n llythyr penderfyniad neu, os ydych wedi dewis cael adolygiad, o fewn 30 diwrnod o'n llythyr yn eich hysbysu am gasgliadau ein hadolygiad, naill ai drwy:

- gwblhau ffurflen apelio'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd sydd ar gael o wefan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd
- ffonio'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i ofyn am gopi, neu
- ysgrifennu at y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

Bydd y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd naill ai:

- yn trefnu gwrandawiad i benderfynu ar eich apêl, neu
- mewn achosion symlach, yn penderfynu ar yr apêl ar sail yr wybodaeth a anfonwyd gennych chi a gennym ni heb fod angen cynnal gwrandawiad.

Mae rhagor o wybodaeth am dribiwnlysoedd a gwrandawiadau tribiwnlys ar gael o wefan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.
Os ydych am i dribiwnlys wrando eich achos, a'i fod yn achos treth uniongyrchol, rhaid eich bod wedi apelio i CThEM yn gyntaf.

Talu treth yn ystod adolygiadau ac apeliadau

• Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â mater treth uniongyrchol, fel arfer gallwch ofyn i ni ohirio rhan o'r dreth neu'r dreth gyfan sy'n destun anghydfod nes i'r apêl gael ei setlo. Gellir datrys apêl trwy gytundeb rhyngoch chi a CThEM neu gellir ei benderfynu gan y tribiwnlys. Rhaid i chi wedyn dalu'r dreth sy'n ddyledus yn unol â phenderfyniad y tribiwnlys neu'r setliad a gytunwyd. Bydd llog yn parhau i gronni ar unrhyw swm sydd wedi ei ohirio a threth nas talwyd, y bernir sy'n ddyledus pan setlir yr apêl neu pan fydd y tribiwnlys wedi gwneud ei benderfyniad.
• Os yw'r penderfyniad yn ymwneud â mater treth anuniongyrchol (ac eithrio materion Tollau), ni fyddwn yn casglu'r dreth sy'n destun anghydfod tra byddwn yn cynnal adolygiad o'r penderfyniad. Ond fel arfer bydd yn rhaid i chi dalu'r dreth sy'n destun anghydfod cyn gall y tribiwnlys wrando ar unrhyw apêl. Petai talu'r dreth yn achosi caledi i chi, gallwch ofyn i ni beidio â'i chasglu tan i'r tribiwnlys benderfynu ar y mater. Os credwch fod hyn yn gymwys i chi, rhowch wybod i ni. Bydd llog yn parhau i gronni ar unrhyw dreth rydych yn dadlau yn ei erbyn, ac unrhyw dreth y bernir sy'n ddyledus pan fo'r tribiwnlys wedi gwneud ei benderfyniad.

Unwaith y bydd y tribiwnlys wedi penderfynu, bydd angen i chi dalu'r dreth sy'n ddyledus yn unol â phenderfyniad y tribiwnlys, hyd yn oed os oes apêl yn ei erbyn. Bydd CThEM yn talu unrhyw symiau sy'n ddyledus i chi yn unol â phenderfyniad y tribiwnlys ynghyd â llog , pan fo hynny'n briodol.

Os apeliwch yn erbyn penderfyniad y tribiwnlys mewn mater sy'n ymwneud â materion treth uniongyrchol, gallwch ofyn i ni beidio â chasglu'r dreth petai ei dalu yn eich rhoi mewn sefyllfa ariannol fregus. Er enghraifft drwy eich gwneud yn fethdalwr. Os bydd apêl yn erbyn penderfyniad y tribiwnlys ac os credwn fod perygl na chawn ein talu, gallwn ofyn i'r Tribiwnlys Uchaf neu lys am ganiatâd i beidio â thalu neu ad-dalu unrhyw swm sy'n ddyledus i chi neu i ofyn am warant cyn i ni wneud hynny.

Rhagor o help

O 1 Ebrill 2009 i gael gwybod mwy am adolygiadau a'ch hawl i apelio ewch i **www.hmrc.gov.uk/dealingwith/appeals.htm**

I gael gwybod mwy am y tribiwnlysoedd newydd, ewch i wefan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn **www.tribunals.gov.uk/** Rhif y Llinell Gymorth Cymraeg yw **0800 212 368** neu gallwch ffonio'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 223 8080**.

Os byddai'n well gennych siarad â ni, neu i gael copi argraffedig o unrhyw un o ganllawiau CThEM, ffoniwch rif y llinell gymorth ar y ffurflen dreth neu ar y llythyr a anfonwyd atoch.

Cwsmeriaid gydag anghenion penodol

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau i gwsmeriaid gydag anghenion penodol, gan gynnwys:

• mynediad cadair olwyn i bron bob Canolfan Ymholiadau
• cymorth i gwblhau ffurflenni
• i bobl ag anawsterau clyw
— Text Relay
— dolenni sain.

Gallwn hefyd drefnu cymorth ychwanegol, megis:

• ymweliadau yn y cartref, os ydych yn cael problemau symudedd neu os oes gennych gyfrifoldebau gofalu ac na allwch fynd i un o'n Canolfannau Ymholiadau
• gwasanaethau dehonglwr
• dehongliad iaith arwyddion
• taflenni mewn print bras, Braille ac ar ffurf glywedol

Am ragor o help ewch i **www.hmrc.gov.uk/enq/index**
Am ganllawiau a ffurflenni Cymraeg ffoniwch **0845 302 1489** ar gyfer 'treth uniongyrchol' **0845 010 0300** ar gyfer 'treth anuniongyrchol'

Unioni pethau

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd rydym wedi ymdrin â'ch materion, er enghraifft oherwydd oedi neu gamgymeriadau, rhowch wybod i'r unigolyn neu'r swyddfa rydych wedi bod yn delio â hwy. Os nad ydynt yn gallu unioni pethau, gofynnwch i'ch achos gael ei gyfeirio at y Rheolwr Cwynion.
Am ragor o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/cfs-12-09-cym.pdf**

Am ragor o wybodaeth:

• ewch i **www.hmrc.gov.uk** neu
• cysylltwch â ni. Bydd ein rhif ffôn yn *Y Llyfr Ffôn* o dan 'HM Revenue & Customs'.

Canllawiau yn unig yw'r nodiadau hyn ac maent yn adlewyrchu'r sefyllfa pan y'u hysgrifennwyd. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.
Tîm Gwybodaeth i Gwsmeriaid
Gorffennaf 2010 © Hawlfraint y Goron 2010